Trefn Apêl ar gyfer Cynlluniau Grant (Nid IACS) o dan y Polisi Amaeth Cyffredin

rpa
rural payments agency

Rhif ffôn: 0118 953 1282
E-bost: customerrelations@rpa.gsi.gov.uk

Cynnwys

1	Rhagarweiniad	2
2	Am ba gynlluniau yr ydym yn sôn?	2
3	Am ba benderfyniadau yr ydym yn sôn?	2
4	Cam cyntaf: Sut i apelio yn erbyn penderfyniad	2
5	Sut fydd eich achos yn cael ei ystyried	3
6	Yr ymateb	3
7	Ail gam: Cyflwyno'r Panel Apêl	3
8	Cyflwyno gwybodaeth newydd	3
9	Sut mae'r Panel Apêl yn gweithio	3
10	Yr opsiwn o wneud cyflwyniad llafar	4
11	Costau	4
12	Argymhelliad y Panel i'r Gweinidog	4
13	Cewch wybod am y penderfyniad cyn gynted â phosib	4
14	Allai herio penderfyniad y Gweinidog?	4

Atodiad A	Rhestr o gynlluniau sydd wedi eu cynnwys yn y Drefn Apêl ar gyfer Cynlluniau Grant (Nid IACS) o dan y Polisi Amaeth Cyffredin	5
Atodiad B	Siart llif o'r drefn	6

Cofiwch
Dim ond i benderfyniadau a wnaed ar neu ar ôl 1 Ebrill 2004 y mae'r drefn apêl hon yn berthnasol

Trefn Apêl ar gyfer Cynlluniau Grant (Nid IACS) o dan y Polisi Amaeth Cyffredin

1. Rhagarweiniad

Mae'r llyfryn hwn yn egluro sut i apelio yn erbyn penderfyniad a wnaed gan yr Asiantaeth Taliadau Gwledig ar gynlluniau a weinyddir gan yr Asiantaeth trwy'r Deyrnas Unedig (ac eithrio cynlluniau IACS).

Mae'r Asiantaeth yn gweinyddu'r drefn apêl:

- yn Lloegr ar gyfer yr Ysgrifennydd Gwladol;
- yng Ngogledd Iwerddon ar gyfer yr Adran Amaeth a Datblygu Gwledig;
- yn yr Alban ar gyfer Gweinidogion yr Alban; ac
- yng Nghymru ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Bydd argymhellion ar yr apeliadau yn cael eu gwneud i'r awdurdodau hyn. Mae gan y drefn ddau gam: yn y cam cyntaf, bydd eich achos yn cael ei adolygu gan Uned Cyswllt Cwsmer yr Asiantaeth. Yn yr ail gam, os nad ydych yn fodlon gyda chanlyniad y cam cyntaf, bydd panel annibynnol yn ystyried eich achos ac yn gwneud argymhelliad i'r Gweinidog Amaeth perthnasol a fydd, yn eu tro, yn penderfynu a ydynt yn derbyn neu'n gwrthod eich apêl. Gallwch herio'r penderfyniad hwn trwy'r llysoedd ac, i apelydd yn yr Alban, byddai'n golygu mynd trwy Lys Tir yr Alban.

Gallwch gysylltu gydag Uned Cyswllt Cwsmer yr Asiantaeth Taliadau Gwledig trwy:

- ysgrifennu ati yn
  Customer Relations Unit
  Rural Payments Agency
  PO Box 69
  Reading RG1 3YD
- ffonio ar 0118 953 1282
- ffacsio ar 0118 953 1467
- e-bostio ar customerrelations@rpa.gsi.gov.uk

2. Am ba gynlluniau yr ydym yn sôn?

Mae'r holl gynlluniau a weinyddir gan yr Asiantaeth Taliadau Gwledig trwy'r DU wedi eu rhestru yn Atodiad A.

3. Am ba benderfyniadau yr ydym yn sôn?

Dim ond i benderfyniadau a wnaed ar neu ar ôl 1 Ebrill 2004 y mae'r drefn apêl hon yn berthnasol. Gellir apelio yn erbyn unrhyw benderfyniad gweinyddol a gymerir gan yr Asiantaeth sy'n effeithio ar eich hawl i dderbyn, ar eich rheidrwydd i dalu taliadau neu ar eich gallu i gymryd rhan mewn cynllun neilltuol. Nid yw'r drefn apêl yn delio gydag apeliadau yng nghyswllt:

- rheolau'r cynlluniau eu hunain, neu yng nghyswllt cyfraddau'r taliadau a benderfynir gan y Gymuned;
- unrhyw gosb droseddol a roddir gan lysoedd barn; ac
- mewn achosion sifil lle mae'r lefi a godir wedi'i chadarnhau gan y llysoedd.

Gall yr Uned Cyswllt Cwsmer roi gwybodaeth bellach i chi a dweud wrthych beth i'w wneud os penderfynwch apelio yn erbyn penderfyniad a wnaed o dan wahanol gynllun, gan gorff gweinyddol gwahanol, ac yng nghyswllt safonau gwasanaeth. Dylech gysylltu gyda'ch twrne os am apelio yn erbyn cosb a roddir i chi gan lys barn. Chi fydd yn talu am hyn.

Gall deddfwriaeth y cynlluniau fod yn fanwl dros ben, yn enwedig gyda'r cynlluniau hynny a weinyddir ar draws y Gymuned Ewropeaidd, fel bo gwledydd y Gymuned yn trin achosion tebyg yr un fath. Er bod y ddeddfwriaeth yn gallu bod yn gymhleth, nid yw bob amser yn glir sut y dylid ei defnyddio wrth ddelio ag amgylchiadau achos neilltuol.

Mae taflenni canllawiau'r cynlluniau yn egluro sut mae'r Asiantaeth Taliadau Gwledig yn defnyddio'r ddeddfwriaeth hon. Os gwnaed penderfyniad gan yr Asiantaeth yn gywir yn ôl y ddeddfwriaeth, ni all y drefn apêl wrthdroi'r penderfyniad hwnnw. Fodd bynnag, gall gadarnhau bod y ddeddfwriaeth wedi'i defnyddio'n gywir yn eich amgylchiadau arbennig chi.

4. Cam cyntaf: Sut i apelio yn erbyn penderfyniad?

Os nad ydych yn hapus ynghylch penderfyniad a wnaed gan yr Asiantaeth, dylech gysylltu gyda'r swyddfa anfonodd y llythyr atoch. Dylen nhw roi eglurhad mwy manwl i chi ar y penderfyniad dros y ffôn, ar yr e-bost neu trwy lythyr. Os ydych yn dal i fod yn anfodlon ac am fynd â'r mater ymhellach, dylech gysylltu gyda'r Uned Cyswllt Cwsmer o fewn 60 diwrnod a rhoi gwybod iddynt eich bod am apelio. Rhaid i chi wneud hyn o fewn chwe mis i'r dyddiad pryd y cawsoch wybod gyntaf am y penderfyniad.

Rhaid i chi gyflwyno eich apêl yn ysgrifenedig (trwy'r post, e-bost neu ffacs), trwy lenwi ffurflen AP1 fyddai orau (mae'r ffurflen hon yn dod gyda'r llyfryn hwn, neu ar gael oddi ar wefan yr Asiantaeth yn www.rpa.gov.uk, neu gan yr Uned Cyswllt Cwsmer) er y gallwch wneud hynny trwy lythyr neu e-bost os dymunwch. Byddwch yn derbyn cydnabyddiaeth gyda throad y post. Os na fyddwch yn derbyn cydnabyddiaeth o fewn pum diwrnod gwaith, cysylltwch gyda'r Uned Cyswllt Cwsmer i wneud yn siwr eu bod wedi derbyn eich apêl.

Mae'r siart llif yn Atodiad B yn dangos y drefn apêl ar ffurf diagram.

5. Sut fydd eich achos yn cael ei ystyried

Bydd swyddogion yr Asiantaeth nad oedd yn rhan o'r penderfyniad gwreiddiol yn adolygu eich achos. I wneud hyn, bydd yr Uned Cyswllt Cwsmer yn gofyn i'r rheolwr(wyr) tîm yn yr Asiantaeth a ddeliodd gyda'ch achos i egluro'r pethau canlynol:

- beth wnaethant; a
- sut wnaethant gyrraedd eu penderfyniad(au).

6. Yr ymateb

Os daw'n glir bod camgymeriad wedi'i wneud wrth ddelio gyda'r mater, bydd yn cael ei gywiro a rhoddir gwybod i chi am hynny.

Gydag achosion eraill, dylai'r Uned fel arfer roi gwybod i chi beth fydd canlyniad yr adolygiad trwy lythyr o fewn 60 diwrnod i fod wedi derbyn eich apêl. Gallai'r canlyniadau gynnwys:

- derbyn bod eich achos wedi'i gam-drin, gan ymddiheuro, a newid unrhyw drefn fewnol i wneud yn siwr na fydd y broblem yn digwydd eto;
- dod i'r casgliad bod camddealltwriaeth wedi digwydd, gan egluro sut gododd hyn ac awgrymu sut y byddwch efallai am symud ymlaen; yn yr achosion hyn, gallai'r Uned Cyswllt Cwsmer hefyd argymell newid y drefn fewnol neu destun y taflenni sy'n rhoi'r canllawiau;
- penderfynu y dylech dderbyn mwy o arian, a threfnu iddo gael ei dalu;
- cytuno gyda phenderfyniad gwreiddiol staff yr Asiantaeth (yn yr achos hwn, byddwch yn derbyn Crynodeb Achos yn nodi ffeithiau eich achos, unrhyw resymau cyfreithiol perthnasol a'r rhesymau dros wrthod eich apêl).

7. Ail gam: Cyflwyno'r Panel Apêl

Os nad ydych yn fodlon gyda phenderfyniad cam cyntaf yr Uned, dylech ysgrifennu'n ôl atynt o fewn 60 diwrnod i ddyddiad eu penderfyniad, gan ddweud wrthynt eich bod am symud ymlaen at ail gam y drefn apêl. Rhaid i chi gyflwyno eich apêl ail gam yn ysgrifenedig (trwy'r post, e-bost neu ffacs). Bydd yn helpu gyda phrosesu eich apêl os byddwch yn gwneud hyn trwy lenwi ffurflen AP2 (ar gael oddi wrth yr Uned Cyswllt Cwsmer neu oddi ar wefan yr Asiantaeth Taliadau Gwledig). Rhaid i'ch apêl ail gam:

- egluro pam eich bod yn anghytuno gyda phenderfyniad cam cyntaf yr Uned;
- nodi'r pwyntiau lle'r ydych yn anghytuno gyda'r crynodeb achos;
- cynnwys unrhyw wybodaeth newydd yr ydych am iddynt ei ystyried;
- dweud a fyddwch yn cyflwyno eich achos yn llafar (gallwch newid eich meddwl nes ymlaen);
- cynnwys siec, yn daladwy i'r Rural Payments Agency am £100. Bydd y swm hwn yn cael ei ddychwelyd atoch os bydd eich apêl yn llwyddo, neu'n llwyddo'n rhannol.

Os byddwch yn ffacsio neu'n e-bostio eich apêl, bydd angen i chi anfon eich siec ar wahân yn y post gan nodi'n glir mai tâl ar gyfer yr apêl ydyw. Byddwn yn anfon cydnabyddiaeth atoch gyda throad y post. Os na fyddwch yn derbyn cydnabyddiaeth o fewn pum diwrnod gwaith, cysylltwch gyda'r Uned i wneud yn siwr eu bod wedi derbyn eich ffurflen neu lythyr, a'r tâl.

8. Cyflwyno gwybodaeth newydd

Os byddwch yn cyflwyno gwybodaeth newydd, neu'n codi dadleuon newydd, bydd yr Uned Cyswllt Cwsmer yn cynnal adolygiad mewnol pellach yn gyntaf. Gwneir hyn am ddau reswm: yn gyntaf, gallai'r wybodaeth newydd a roddir gennych olygu y bydd yr Uned yn newid ei phenderfyniad blaenorol heb fod angen i'r achos fynd o flaen y Panel; yn ail, er mwyn sicrhau, os bydd yr achos yn mynd o flaen y Panel, y gellir cytuno ar grynodeb achos newydd gyda chi. Ni ddylai'r ail adolygiad gymryd hirach na 30 diwrnod. Ni fydd y cyfnod 60 diwrnod a roddir i'r Panel ystyried eich achos yn dechrau hyd nes y cyflawnir yr ail adolygiad. Rhoddir gwybod i chi am ganlyniad yr ail adolygiad. Os bydd eich achos yn mynd ymlaen i'r ail gam, ac mae angen crynodeb achos newydd, anfonir copi atoch gan ofyn i chi gytuno arno, neu'n dweud ar ba bwyntiau yr ydych yn anghytuno, cyn ei anfon wedyn i'r Panel.

9. Sut mae'r Panel Apêl yn gweithio

Bydd adroddiad yn cynnwys eich rhybudd apêl, y crynodeb achos (neu'r crynodeb achos ac unrhyw bwyntiau lle'r ydych yn anghytuno gyda nhw) ynghyd ag unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol a chanllawiau yn cael eu hanfon i'r Panel Apêl. Mae tri aelod annibynnol yn eistedd ar y Panel, wedi eu dewis o restr fwy a benodir gan Weinidogion yn dilyn y drefn benodi gyhoeddus arferol[1]. Bydd aelod o'r Uned ar y Panel fel ysgrifennydd, ond ni fydd yn cymryd rhan ynddo ac ni fydd yn cyfrannu at gasgliadau'r Panel ychwaith.

Bydd y Panel yn ystyried eich apêl yng ngoleuni'r dogfennau sydd o'i flaen a gall hefyd ofyn am wybodaeth bellach gennych chi neu gan yr Asiantaeth, neu am gyngor cyfreithiol.

[1] Bydd aelodau allanol o'r Panel yn cael eu penodi yn unol â'r Cod Ymarfer ar Benodiadau Cyhoeddus, sy'n gwneud yn siwr fod y broses yn deg, agored a gonest.

10. Yr opsiwn o wneud cyflwyniad llafar

Os ydych wedi gofyn am gael gwneud cyflwyniad llafar, byddwn yn ceisio trefnu i'r Panel gyfarfod â chi yn eich ardal, er na fydd hyn yn bosib bob tro. Lle byddai hynny'n briodol, gallwch ofyn am i'r cyflwyniad llafar fod yn Gymraeg neu yn yr iaith Wyddeleg/Gaeleg yr Alban. Bydd yr Uned Cyswllt Cwsmer yn cysylltu gyda chi tua phythefnos cyn y cyfarfod i gadarnhau eich bod dal am wneud cyflwyniad ac, os felly, i roi gwybod i chi am y trefniadau. Ni fyddwn yn talu unrhyw gostau ynghlwm â hyn.

Gofynnir i chi gyflwyno eich achos yn llafar i'r Panel i gefnogi'r wybodaeth a roddoch yn ysgrifenedig. Bydd y Panel yn holi unrhyw staff o'r Asiantaeth ar wahân. Byddwch yn gallu gwneud cyflwyniad byr. Awgrymwn y dylai hwn bara rhwng chwarter a hanner awr - rhowch wybod i ni ymlaen llaw os byddwch angen mwy o amser. Ar ôl eich cyflwyniad, efallai y bydd y Panel yn gofyn cwestiynau i chi.

Gallwch ddod â ffrind neu rywun fu'n eich cynghori gyda chi i'r cyfarfod. Gallwch hefyd gael rhywun i siarad drosoch chi yn y cyfarfod os dymunwch. Fodd bynnag, nid llys barn yw'r Panel a gobeithiwn y bydd y broses yn un ddidrafferth ac y gallwch siarad drosoch eich hun. Os penderfynwch eich bod am gael rhywun i'ch cynrychioli neu i fod gyda chi, chi fydd yn talu am hynny.

11. Costau

Cofiwch mai proses anffurfiol yw hon ac os penderfynwch, ar unrhyw adeg, eich bod am gael gafael ar gyngor cyfreithiol neu arbenigol arall, chi fydd yn talu am hynny. Ni fydd yr Asiantaeth yn gallu talu unrhyw gostau yn ôl i chi hyd yn oed os bydd eich apêl yn llwyddo.

12. Argymhelliad y Panel i'r Gweinidog

Bydd y Panel yn adolygu eich achos ar sail y dystiolaeth ysgrifenedig ac unrhyw gyflwyniad llafar, cyn gwneud ei benderfyniad. Gwneir hyn trwy argymhelliad i'r Gweinidog Amaeth perthnasol yn y Deyrnas Unedig. Er y gallai'r Gweinidogion hyn fod wedi bod yn rhan o'r penderfyniad gwreiddiol, mae'n annhebygol iawn y byddent wedi gweld unrhyw bapurau ar eich apêl.

Bydd y Panel yn anelu at anfon ei argymhelliad i'r Gweinidog, ynghyd â'r adroddiad ac unrhyw gyngor cyfreithiol, o fewn 60 diwrnod i'r dyddiad pryd fydd yr Uned Cyswllt Cwsmer wedi derbyn eich cais am adolygiad gan y Panel (ar yr amod na fydd angen ystyried unrhyw dystiolaeth newydd a gyflwynir gyda'r apêl ail gam). Bydd gan y Gweinidog yna amser amhenodol i benderfynu a ydyw am dderbyn yr argymhelliad ai peidio, er y gobeithiwn na fydd yn cymryd mwy nag ychydig ddyddiau.

13. Rhoddir gwybod i chi am y penderfyniad cyn gynted â phosibl.

Bydd yr Uned yn dweud wrthych am benderfyniad y Gweinidog trwy lythyr "cofnodi'r danfoniad" fydd yn cynnwys:

- y crynodeb achos, os cafodd ei newid yn ystod yr apêl;
- argymhellion y Panel, a'i resymau.

14. Allai herio penderfyniad y Gweinidog?

Unwaith y bydd y Panel wedi ystyried eich achos, a'r Gweinidog wedi gwneud ei benderfyniad yng ngoleuni argymhellion y Panel, mae'r drefn apêl wedi'i chwblhau.

Os nad ydych yn fodlon gyda phenderfyniad y Gweinidog, gallwch fynd â'r mater ymhellach. Dylech ofyn am gyngor cyfreithiol os penderfynwch herio penderfyniad y Gweinidog trwy'r llysoedd; neu, os derbyniwch fod y penderfyniad yn gywir ond bod eich achos wedi'i gam-drin, gallwch fynd ar ôl y mater trwy gysylltu gyda'r Ombwdsman.

Ar gyfer apeliadau yn yr Alban, gallwch ddewis apelio yn erbyn penderfyniad y Gweinidog trwy Lys Tir yr Alban. Rhaid cyflwyno'r apêl yma o fewn 60 diwrnod i ddyddiad y llythyr yn rhoi gwybod i chi am benderfyniad y Gweinidog. Mae manylion am y broses ar gael yng nghanllawiau Trefn Apêl IACS, AP(EL), a gyhoeddir gan Weithrediaeth yr Alban. Gallwch gael copi o'r canllawiau gan yr Uned Cyswllt Cwsmer ar-lein yn www.scotland.gov.uk/agri.

Atodiad A

Rhestr o gynlluniau sydd wedi eu cynnwys yn y Drefn Apêl ar gyfer Cynlluniau Grant (Nid IACS) o dan y Polisi Amaeth Cyffredin

Iawndal amaethyddol yng nghyswllt unrhyw un o'r cynlluniau canlynol:

Llaeth/cynhyrchion llaeth

Menyn i'w Weithgynhyrchu
Menyn ar gyfer Mudiadau Di-Elw
Cymhorthdal Cynhyrchu Casein
Rheoli Casein Wrth Wneud Caws
Menyn Crynodedig i'w Fwyta Fel y Mae
Cynllun Llaeth Ysgol
Powdr Llaeth Sgim ar gyfer Ffîd Anifeiliaid
Cynllun Cwotâu Llaeth

Masnach Allanol

Bananas
Cig Eidion a Chig Llo
Cwota Tariff Mewnforio Cig Eidion
Grawnfwydydd
Wyau
Ethyl Alcohol
Pysgod
Tyfu blodau a phlanhigion
Ffrwythau a Llysiau
Llaeth/Cynhyrchion Llaeth
Olewau/ Brasterau
Hadau olew/Hadau
Cig moch
Cig dofednod
Nwyddau wedi eu Prosesu
Reis
Cig oen/Cig gafr
Siwgr, Isoglwcos a Sudd Inswlin
Tybaco
Ad-daliadau Chwisgi
Gwin

Pysgod

Grant Cario Drosodd ar gyfer Pysgod
Premiwm Cyfradd Unffurf ar gyfer Pysgod
Grant Storio Preifat ar gyfer Pysgod
Iawndal Tynnu yn Ôl ar gyfer Pysgod

Ffrwythau a Llysiau

Grant Defnydd Afalau
Grant Prosesu Sitrws
Rheolaeth Pen Draw ar Ffrwythau a Llysiau neilltuol
Ffrwythau a Llysiau Ffres a Dynnir yn Ôl
Rhaglen Weithredu ar gyfer Ffrwythau a Llysiau
Cydnabyddiaeth i Sefydliadau Cynhyrchu Ffrwythau a Llysiau
Grant Sudd Grawnwin
Grant ar gyfer Mws Grawnwin crynodedig

Cynlluniau Ymyrraeth

Cig eidion
Grawnfwydydd
Cynhyrchion Llaeth

Cynlluniau tir

Grant ar gyfer porthiant sych
Grant Prosesu Ffibr
Grant Cynhyrchu Hadau Glaswellt

Da byw

Rhaglen Gwybodaeth Cig Eidion
Cynllun Dros Dri Deg Mis Oed
Cynllun Difa Dethol

Cynlluniau Grant Storio Preifat

Cig eidion
Llaeth/cynhyrchion llaeth
Cig moch
Cig oen/Cig gafr

Hyrwyddo

Hyrwyddo yn y Farchnad Fewnol
Hyrwyddo mewn Trydydd Gwledydd

Siwgr, Olewau a Startsh

Grant Puro Siwgr Câns (CRS)
Rheolaeth pen draw ar Olewau Llysiau Neilltuol
Cwotâu Isoglwcos a Lefïau Cynhyrchu
Grant Cynhyrchu Olew Olewydd
Ad-daliad Cynhyrchu ar Siwgr a ddefnyddir yn y diwydiant cemegol
Startsh ar gyfer Defnyddwyr Pen Draw Penodedig
Ad-daliadau Startsh - Grawnfwydydd
Ad-daliadau Startsh - Reis
Cwotâu Siwgr a Lefïau Cynhyrchu

Atodiad B

Y Drefn Apêl ar gyfer Cynlluniau Grant (Nid IACS) o dan y Polisi Amaeth Cyffredin



*Bydd y Panel yn gwneud argymhelliad i'r Gweinidog perthnasol o fewn 60 diwrnod i'r dyddiad pryd fydd Uned Cyswllt Cwsmer yr Asiantaeth yn derbyn yr apêl AP2.

Ar gyfer apeliadau yn yr Alban, bydd y drefn hon yn cael ei hymestyn i ganiatáu apelio at Lys Tir yr Alban.

rpa
rural payments agency

rpa127w ver 1.1 April 2004